**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**15 HYDREF 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas, Treffynnon, ddydd Mawrth, 15 Hydref 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Patrick Heesom (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Sean Bibby, Chris Dolphin, David Evans, George Hardcastle, Cindy Hinds, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Andy Dunbobbin a'r Cynghorydd Veronica Gay.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Haydn Bateman

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau, Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth, Rheolwr Yr Amgylchedd Naturiol a Mynediad, Swyddog Ymwybyddiaeth Mynediad a Chefn Gwlad, Gladys Harrison, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas a Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 24. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 25. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol er mwyn ei hystyried.

Mewn ymateb i bwynt a godwyd am berygl llifogydd a newid hinsawdd gan y Cynghorydd Hinds, dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) y gellid dod ag adroddiad gerbron y pwyllgor ym mis Rhagfyr.

Nododd yr Aelodau eu bod yn dymuno ystyried adroddiad am flodau gwyllt ar leiniau glas mewn cyfarfod yn y dyfodol hefyd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu heb eu cwblhau.

**26. DDYFFRYN MAES GLAS - ADRODDIAD CYNNYDD BOB CHWE MIS**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad cynnydd chwe mis am Ddyffryn Maes Glas a chadarnhaodd bod y Cytundeb Rheoli wedi cael ei gytuno rhwng Cyngor Sir y Fflint ac Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas ym mis Awst. Rhoddodd wahoddiad i'r Rheolwr yr Amgylchedd Naturiol a Mynediad i gyflwyno'r adroddiad.

Cyflwynodd Rheolwr yr Amgylchedd Naturiol a Mynediad y pwyntiau allweddol o'r 6 mis diwethaf am y gwaith a gynhaliwyd yn Nyffryn Maes Glas. Sef:

- Rheoli'r Safle
- Cronfa Dreftadaeth Y Loteri
- Llwybr Teithio Llesol
- Gwirfoddoli
- Larwm Tân / Gwaith trydanol
- Asesiad Iechyd a Diogelwch
- Y Faner Werdd

Yna, dangosodd Swyddog Ymwybyddiaeth Mynediad a Chefn Gwlad fideo byr o'r parc a rhoddodd adroddiad am y cynnydd cadarnhaol yr oedd Dyffryn Maes Glas wedi'i gael drwy'r elfennau a ganlyn:

- Gwaith Hyrwyddo
- Y Cyfryngau Cymdeithasol
- Digwyddiadau

Croesawodd Gadeirydd Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas y berthynas gadarnhaol newydd rhwng y ddau sefydliad a chanmolodd y tîm am eu gwaith caled dros y misoedd diwethaf. Roedd hi'n cyfaddef y gallai pethau fynd o'i le ond gyda gwaith tîm gwych, roedd posib datrys problemau'n sydyn iawn ac roedd pethau'n dechrau symud yn eu blaen bellach.

Cododd y Cynghorydd Johnson bryder am dipio anghyfreithlon a chytunodd y Swyddog Ymwybyddiaeth Mynediad a Chefn Gwlad i roi gwybodaeth ar Facebook, ynghyd â'r fideo a ddangoswyd yn y Pwyllgor.

Cwestiynodd Owen Thomas o lle oedden nhw'n cael eu trydan, o gofio faint o ddŵr sy'n llifo ger y Parc. Cadarnhaodd Rheolwr yr Amgylchedd Naturiol a Mynediad nad oedd y rhan trydan wedi'i orffen eto ond nad oedd yr olwyn ddŵr yn gweithio eto. Cadarnhaodd bod gwaith ar y gweill gyda'r prosiect ac roedd hyn yn cael blaenoriaeth.

Roedd yr Aelodau'n canmol yr hyn oedd wedi cael ei wneud yn y 6 mis diwethaf ac roedden nhw eisiau iddyn barhau i hyrwyddo'r Ganolfan Treftadaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ychwanegodd y Cynghorydd Shotton y gallai fod o fantais i gysylltu â gwestai a meysydd carafanau lleol hefyd. Wrth ymateb i

hyn, cadarnhaodd y Swyddog Ymwybyddiaeth Mynediad a Chefn Gwlad bod taflenni eisoes wedi cael eu rhoi i westai a meysydd carafanau lleol ac roedd llawer yn ymweld â'r Ganolfan – rhai cyn belled i ffwrdd â Birmingham.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Paul Shotton ac eiliwyd gan y Cynghorydd Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd cadarnhaol sydd wedi cael ei gyflawni yn Nyffryn Maes Glas.

## 27. YMGYNGHORIAD ADOLYGU'R STRATEGAETH GWASTRAFF

Cyn ystyried yr adroddiad, roedd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad eisiau cynghori'r Pwyllgor bod Sir y Fflint yn perfformio'n dda ar ailgylchu ac yn uwch na thargedau gan mai Sir y Fflint yw'r trydydd gorau yng Nghymru ac mae Cymru yw'r trydydd gorau yn y byd.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) gefndir yr adroddiad a gofynnodd i'r Pwyllgor am eu adborth am yr ymgynghoriad 6 wythnos am ailgylchu ac y byddai'n dod yn ôl gyda'r canlyniadau unwaith roedd yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau. Cyflwynodd y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaeth a roddodd wybodaeth am y materion a ganlyn:

- Targedau a Pherfformiad Ailgylchu
- Yr angen i adolygu'r Targedau Ailgylchu
- Adolygiad o'r Strategaeth Gwastraff Cyfredol

Holodd y Cadeirydd pam bod y cyfnod ymgynghori mor fyr gan mai dim ond chwech wythnos o hyd ydoedd. Dywedodd y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaeth bod bron i 7,805 o ymatebion wedi cyrraedd yn barod ac roedd yr ymgynghoriad yn parhau ar agor tan 31 Hydref. Byddai'r arolwg electronig yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith dadansoddi ond byddai angen mynd drwy dros 2,000 o sylwadau unigol.

Gofynnwyd cwestiynau am gwael gwared ar gewynnau. Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) eu bod yn edrych mewn i hyn a bod Llywodraeth Cymru (LlC) yn buddsoddi mewn safle ailgylchu cewynnau yng Ngogledd Cymru ond am y tymor byr roedden nhw'n parhau i fynd i Barc Adfer.

Codwyd pryderon am wastraff gweddilliol. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, ar y cyfan, bod gwastraff gweddilliol wedi gostwng oherwydd y cynnydd ym maes gorfodi gwastraff. Ychwanegodd y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaeth y byddai gwastraff gweddilliol yn cael ei gasglu ac y byddai sticer yn cael ei roi ar y bin i nodi ei fod wedi cael ei gymryd ond na ddylid cyflwyno gwastraff wrth ochr y bin. Byddai llythyr yn cael ei anfon hefyd a Rhybudd Cosb Benodedig am droseddau pellach. Cwestiynodd y Cynghorydd Hutchinson pam nad oedd yn cael ei gymryd oherwydd roedd o'n ei weld fel pobl yn bod yn gyfrifol am wastraff, ond rhoddwyd gwybod iddo bod y bag du fel arfer yn cynnwys eitemau y gellid eu hailgylchu.

Codwyd maint y biniau ac amlder y casglu hefyd. Dywedodd y Cynghorydd Hardcastle na fyddai pobl hŷn yn gallu defnyddio biniau mwy ac awgrymodd y Cynghorydd Dolphin petai biniau'n llai y byddai'n gorfodi pobl i ailgylchu mwy o bosib. Byddai angen i'r biniau fod yn fwy petai casgliadau'n newid i gael eu casglu bob 3-4 wythnos.

Dywedodd y Cynghorydd Bibby bod y rhan fwyaf o breswylwyr yn ailgylchu'n dda ac y dylai LlC orfodi gwneuthurwyr i ddefnyddio pecynnau y mae modd eu hailgylchu neu rai sy'n fioddiraddadwy. Dywedodd hefyd bod hi'n anodd cael bocsys a bagiau ailgylchu weithiau. Nid oedd yn cefnogi casgliadau bob 3-4 wythnos ac roedd yn teimlo y dylai'r ffocws fod ar annog pobl i ailgylchu mwy.

Roedd aelodau eraill yn cefnogi lobïo LlC a dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad bod y Llywodraeth yn ystyried deddfwriaeth newydd mewn perthynas â chyfrifoldeb cynhyrchwyr.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd Allport, cadarnhaodd y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaeth nad oedden nhw'n defnyddio'r cwmni oedd yn cyflenwi'r sticeri ar gyfer y biniau brown bellach a'u bod yn ymchwilio i system tag gan y byddai'n anoddach i dynnu'r rhain ymaith a'u bod yn gryfach.

Cododd y Cynghorydd Hughes bryder am y diffyg lle i finiau wrth dai teras oherwydd eu bod mor agos at ei gilydd ac na ellid gwybod i sicrwydd o ba dŷ ddaeth y bag tu allan i'r bin. Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) bod llawer o waith yn digwydd mewn perthynas â'r mannau casglu cymunedol, gan gynnwys gosod camerâu mewn rhai mannau.

Awgrymodd y Cynghorydd Evans bod ymgynghoriadau o ddrws i ddrws yn digwydd mewn mannau sy'n achosi problemau a holodd pam mai yn ystod y dydd yn unig roedd yr ymgynghoriadau yn y Canolfannau Cyswllt a'r Llyfrgelloedd.

Cytunodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) a dywedodd y byddai Swyddogion yn cysylltu â phreswylwyr mewn ardaloedd oedd yn peri problemau. Cytunodd hefyd bod angen i'r digwyddiadau ymgynghori gael eu cynnal ar adegau gwahanol i fod yn gyfleus i breswylwyr.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Sean Bibby ac eiliwyd gan y Cynghorydd Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi perfformiad ailgylchu cyfredol y Cyngor; a

(b) Nodi'r adborth am y pwyntiau a godwyd yn y rhaglen ymgynghori a'r holiadur.

## 28. POLISI TORRI GWAIR

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad yn amlygu amlder torri gwair ar gyfer bob categori fel a ddiffinnir yn y Polisi Torri Gwair cyfredol. Gwahoddodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd i ddarparu trosolwg am y safonau cyfredol. Dywedodd bod y Contractwyr wedi gorfod cael eu defnyddio i gynnal safonau tan ddiwedd mis Medi oherwydd bod adnoddau wedi cael eu hailgyfeirio oherwydd y llifogydd lleol dros yr haf a'r tymheredd uchel yn golygu bod y gwair yn tyfu'n gynt.

Gofynnodd y Cynghorydd Evans faint oedd hi'n gostio i gael gwared ar wair oedd wedi cael ei dorri ar gaeau chwaraeon a chanolfannau pensiynwyr. Pwysleisiodd na ddylid gadael y gwair hwn ar ôl ei dorri ac y dylid cael gwared ohono ac y byddai hynny'n gostwng nifer y cwynion a geir.

Dywedodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffordd y byddai cynnydd o 70% yn y gost petai'r gwair yn cael ei gasglu gan y byddai angen peiriannau ac offer newydd i wneud hynny. Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) y byddai'n adrodd yn ôl ddiwedd Rhagfyr / Ionawr gyda'r ffigyrau.

Cytunodd y Cynghorydd Hughes gyda'r Cynghorydd Evans a dywedodd bod Leeswood yn bwriadu plannu hadau gwyllt mewn ardaloedd gwyrdd y flwyddyn nesaf fel na fyddai angen torri'r gwair. Atgoffodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) y Pwyllgor bod yr adroddiad yn argymell bod y Cynghorau Tref a Chymuned yn rhoi syniadau ymlaen i'w hystyried ar gyfer plannu blodau gwyllt i'w treialu dewis amgen er mwyn torri'r gwair yn llai aml a chael gwair hirach.

Rhannodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad luniau o enghreifftiau o lle gellid plannu blodau gwyllt a hynny am bris isel.

Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Bibby, rhoddwyd eglurhad am y patrwm torri gwair mewn mynwentydd.

Diolchodd y Cynghorydd Hardcastle i'r Prif Swyddog, y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd a'r Gwasanaeth Strydwedd am y gwaith o dorri gwair oedd wedi cael ei wneud yn Aston.

Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) y byddai'n siarad â'r Cynghorydd Hutchinson am broblem oedd wedi codi gyda chontractwr ar ôl y cyfarfod a chytunodd i ddosbarthu gwybodaeth am y Cynllun Plannu Gwirfoddol "Ein Gardd Cefn".

Cynigiodd y Cynghorydd Evans bod y penderfyniad yn cael ei ohirio er mwyn gallu ystyried adroddiad am gost gwirioneddol cael gwared ar wair mewn rhai ardaloedd fel canolfannau pensiynwyr, caeau chwarae ysgolion a mannau cymunedol.

Cytunodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adrodd yn ôl ddiwedd Rhagfyr / Ionawr am y gost. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd David Evans ac eiliwyd nhw gan y Cynghorydd George Hardcastle.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn dymuno cael adroddiad pellach gan roi amlinelliad o gost cyflwyno gwaith casglu gwair yn y Polisi Torri Gwair.

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo hyrwyddo rhaglen o blannu blodau gwyllt gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned oedd yn dymuno bod yn rhan o'r fenter.

**29. CYNLLUN GWEITHREDU CLEFYD COED YNN**

Rhoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) gyflwyniad byr i'r adroddiad yn nodi mai'r pwrpas oedd codi ymwybyddiaeth o'r broblem a oedd yn symud yn gyflymach nag a ddisgwyliwyd a sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r cynlluniau gweithredu. Cyflwynodd Reolwr yr Amgylchedd Naturiol a Mynediad a eglurodd y sefyllfa'n fwy manwl.

Eglurodd bod gwaith monitro eleni wedi dangos ei fod bellach yn endemig ledled y sir a bod y clefyd yn debygol o gael gwared ar y rhan fwyaf o'r 24,000 o goed ynn ac y byddai hynny'n cael effaith amgylcheddol sylweddol. Roedd Sir y Fflint yn ffodus bod ganddynt Swyddog Coed penodol (yn wahanol i awdurdodau cyfagos) sydd wedi amlinellu cynlluniau i flaenoriaethu cael gwared ar goed heintiedig o ymyl ffyrdd, ysgolion a lleoliadau cyhoeddus eraill. Ychwanegodd y byddai coed heintiedig nad ydynt ar dir y Cyngor yn broblem fwy. Dangoswyd lluniau o goed heintiedig i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad bod perygl ariannol ynghlwm wrth y materion a amlygwyd yn yr adroddiad felly roedd hi wedi codi hyn gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Soniodd y Cadeirydd am y pwysigrwydd o gyfathrebu pa mor ddyrys yw'r sefyllfa a thynnodd sylw at ansawdd yr adroddiad ac roedd o'n teimlo y dylai fod ar gael yn ehangach.

Dywedodd y Swyddog Ymwybyddiaeth Mynediad a Chefn Gwlad bod angen bod yn ofalus wrth gyfathrebu'n y modd cywir gyda'r cyhoedd i osgoi panig a bod cynllun mewn grym i reoli'r broblem.

Amlygodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y pwysau ar y gyllideb a nodwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi cynnwys y cynllun; a

(b) Nodi'r risgiau mewn perthynas â'r effaith posib i'r Awdurdod o ran cyllid ac iechyd a diogelwch.

## 30. DARPARIAETH A STRATEGAETH MYNWENTYDD Y DYFODOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad yn ceisio cefnogaeth a gyfer prynu tir i ymestyn Mynwentydd Yr Hôb a Phenarlâg. Hefyd, soniodd bod ymchwiliadau i ddarpariaethau claddu yn y dyfodol mewn Mynwentydd eraill yn y Sir yn cychwyn 4 blynedd cyn y pwynt a ragwelir lle mae'r mynwentydd cyfredol yn llawn. Gwahoddodd y Rheolwr Profedigaeth i ddarparu trosolwg o brif bwyntiau'r adroddiad.

Mewn perthynas â Mynwentydd Bwcle, nododd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) bod angen dechrau edrych ar ddatrysiadau oherwydd rhagwelir na fyddai'r ddarpariaeth gyfredol yn para mwy na 9 mlynedd. Dywedodd y Cynghorydd Hutchinson ei fod o'n teimlo bod angen i'r Cyngor ail-edrych ar rai materion yn y dyfodol mewn perthynas â thir yn ardal Bwcle. Roedd wedi siarad â Ficar Eglwys Bistre a oedd wedi dweud y byddai'n fodlon rhyddhau rhan o'r tir petai'r Cyngor ei angen.

Mewn perthynas â chwestiynau gan y Cynghorydd Hardcastle, nododd y Rheolwr Profedigaeth bod tir ym Mynwent 2 ym Mhenarlâg yn ymyl gwaelod ochr chwith y fynwent a fyddai'n rhoi 30 mlynedd ychwanegol yn seiliedig ar y gyfradd claddedigaeth gyfredol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion a'r Aelodau Cabinet am eu presenoldeb.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Paul Shotton ac eiliwyd gan y Cynghorydd Cindy Hinds.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cadeirydd yn cefnogi prynu'r tir a nodwyd i ymestyn Mynwentydd Yr Hôb a Phenarlâg.

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell bod ymchwiliadau i ddarpariaethau claddu yn y dyfodol mewn Mynwentydd eraill yn y Sir yn cychwyn 4 blynedd cyn y pwynt a ragwelir lle bo'r mynwentydd cyfredol yn llawn.

## 31. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.30 pm)

..................................................

**Cadeirydd**